**LC226**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) (Diddymu) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio)1986 a waharddodd lanio crafangau crancod yn y Deyrnas Unedig os oeddent wedi'u datod oddi ar grancod bwytadwy a ddaliwyd o fewn awdurdodaeth pysgodfeydd Prydain.

Erbyn hyn mae'r darpariaethau perthnasol sy'n llywodraethu hyn i'w cael yng Ngorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth Cymunedol) (Cymru) 2000 Rhif 2230 (Cy. 148).

Mae gorchmynion i'r un perwyl wedi'u gwneud ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon ac ar gyfer yr Alban.

Bwriedir defnyddio'r weithdrefn gyflymach mewn cyfarfod llawn ar gyfer y Gorchymyn hwn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

1 Mai 2001